Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Adroddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad)

Mawrth

## 1. Cyflwyniad

**1.** Ar 2 Ionawr 2025, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ('yr Ysgrifennydd Cabinet') Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Data (Defnydd a Mynediad) ('y Memorandwm') gerbron y Senedd.

**2.** Ar 7 Ionawr 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Memorandwm at: y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar gyfer gwaith craffu, gyda therfyn amser i gyflwyno adroddiadau erbyn 7 Mawrth 2025.

**3.** Ar 28 Ionawr, cytunodd y Pwyllgor Busnes i estyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiadau hyd at 14 Mawrth.

### Ein dull ni

**4.** Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm ar 5 Chwefror. Dim ond fel y mae'n ymwneud â Rhan 3 o Fil y DU y trafododd y Pwyllgor y Memorandwm, gan mai dyma'r unig faterion sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

# 2. Y Bil Data (Defnydd a Mynediad)

**5.** Cyflwynwyd y Bil Data (Defnydd a Mynediad) (‘y Bil’) yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 23 Hydref 2024 a dechreuodd y Cyfnod Adrodd ar 21 Ionawr 2025.

## Amcanion polisi

**6.** Yn ôl y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol:

> *“Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw harneisio pŵer data er lles twf yr economi, i gefnogi llywodraeth ddigidol fodern, a gwella bywydau pobl. Mae'n nodi bod y Bil wedi'i gynllunio i gyflawni'r tri amcan hyn gyda mesurau wedi'u cynnwys i ddechrau cyflawni ei hymrwymiad i wasanaethu'r cyhoedd ym Mhrydain yn well trwy wyddoniaeth a thechnoleg.”*

**7.** Mae’r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:

- caniatáu ar gyfer rhannu data cwsmeriaid yn ddiogel, e.e. data a ddelir gan ddarparwr cyfathrebu neu ddarparwr gwasanaethau ariannol, ar gais y cwsmer, gyda darparwyr trydydd parti awdurdodedig.
- sefydlu strwythur deddfwriaethol ar gyfer darparu gwasanaethau dilysu digidol yn y DU.
- darparu fframwaith deddfwriaethol i gefnogi gweithrediad y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol.
- newid y ffordd y cofrestrir genedigaethau a marwolaethau yng Nghymru a Lloegr, er mwyn gallu symud o system bapur i gofrestru electronig.
- newid rhannau o fframwaith diogelu data a phreifatrwydd y DU i gynnal safonau diogelwch uchel, gan ddelio â diffyg eglurder y ddeddfwriaeth bresennol sy'n faen tramgwydd rhag datblygu a defnyddio technolegau newydd yn ddiogel.
- hwyluso llif data personol a'r defnydd ohono at ddibenion gorfodi'r gyfraith a diogelwch y wlad.
- diwygio'r rheoleiddiwr, y Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys ei strwythur llywodraethu, ei ddyletswyddau, ei bwerau gorfodi, ei ofynion adrodd a'r prosesau cwyno am ddiogelu data a'i ddatblygiad o godau ymarfer statudol.

- rhoi hyblygrwydd i'r Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan allu penderfynu ar y broses orau i'w dilyn ar gyfer penodi'r trwyddedai fydd yn olynu i ddarparu gwasanaethau cyfathrebu mesuryddion clyfar.

- estyn y pwerau rhannu data o dan adran 35 o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 i gynnwys busnesau.

- diwygio Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 i'w gwneud yn ofynnol i OFCOM, pan gaiff ei hysbysu o farwolaeth plentyn gan y Crwner (neu'r 'Procurator Fiscal' yn yr Alban), gyhoeddi hysbysiad gwybodaeth i ddarparwyr gwasanaethau ar-lein penodedig sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gadw am gyfnod penodedig wybodaeth benodol ynghylch y gwasanaeth a ddefnyddiwyd gan y plentyn fu farw.

- creu fframwaith sy'n caniatáu i ymchwilwyr gael at ddata sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein a gedwir gan gwmnïau technoleg.

- cadw gwybodaeth fiometrig, gan gynnwys yr hyn a geir pan fydd partneriaid rhyngwladol yn rhannu.

- diweddaru rheoliadau i sicrhau bod fframwaith cyfreithiol gwasanaethau ymddiriedaeth y DU yn parhau i weithredu'n effeithiol.

## Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**8.** Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, dim ond Rhan 3 o'r Bil a drafodwyd gan y Pwyllgor, gan mai dyma'r unig ran o'r Bil sy'n berthnasol i'w gylch gwaith.

### Rhan 3 - Y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol, cymalau 56, 57, 60(1) ac Atodlen 1

**9.** Mae'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol ('NUAR') yn fap digidol o bibellau a cheblau tanddaearol. Mae Rhan 3 o'r Bil yn diwygio Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 ('Deddf 1991') drwy fewnosod Rhan 3A newydd yn y Ddeddf honno i roi'r NUAR ar sail statudol, drwy osod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gadw cofrestr (h.y. yr NUAR) a sicrhau bod y wybodaeth sydd ar y gofrestr honno ar gael i bersonau eraill.

**10.** Mae diwygiadau pellach i Ddeddf 1991 hefyd yn ceisio diweddaru'r rhwymedigaethau presennol o ran rhannu data sy'n ymwneud â chyfarpar

tanddaearol er mwyn manteisio ar y cyfleoedd a grëwyd yn sgil y datblygiadau a wnaed o ran data a thechnoleg ers cyflwyno'r mesurau deddfwriaethol blaenorol. [1]

**11.** Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan y Rhan hon.

**12.** Mae Cymal 57 (Gwybodaeth mewn perthynas â chyfarpar: Cymru a Lloegr) yn diwygio adran 79 o Ddeddf 1991, ac yn disodli adran 80 o'r Ddeddf honno (sy'n bodoli eisoes ond heb ei chychwyn eto). Mae'r diwygiadau i adran 79, ymhlith pethau eraill, yn ei gwneud yn ofynnol i 'ymgymerwyr' ("undertakers") gofnodi gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â chyfarpar a chofnodi gwybodaeth yn yr NUAR. Mae adran 79 o Ddeddf 1991 eisoes yn gosod nifer o ofynion cadw cofnodion ar ymgymerwyr mewn perthynas ag eitemau o gyfarpar sy'n eiddo iddynt. Er enghraifft, mae adran 79(1) yn ei gwneud yn ofynnol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol yn dilyn digwyddiadau penodol, i ymgymerwr gofnodi lleoliad pob eitem o gyfarpar sy'n perthyn iddo, gan gynnwys eu natur (os yw'n hysbys) ac a yw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd. Mae'r diwygiadau a wneir gan y Bil yn gosod dyletswydd ar ymgymerwyr i gofnodi gwybodaeth arall y tu hwnt i'r hyn y mae eisoes yn ofynnol iddynt ei chofnodi.

**13.** Mae darpariaethau presennol adran 79 yn rhoi pwerau i 'ragnodi' materion penodol. O ran Cymru, rhoddwyd y swyddogaethau hyn eisoes i Weinidogion Cymru. Mae'r Bil yn diwygio'r darpariaethau hyn fel bod modd i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru ragnodi materion mewn perthynas â chyfarpar mewn strydoedd yng Nghymru, er ei bod yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag arfer y pwerau hyn.

**14.** Mae'r adran 80 newydd yn gosod dyletswyddau ar bersonau sy'n ymgymryd â gwaith o unrhyw ddisgrifiad mewn stryd i gymryd camau penodol eraill pan fyddant yn nodi gwybodaeth sydd ar goll neu'n anghywir yn y cofnodion presennol, neu pan fyddant yn dod o hyd i gyfarpar ac na allant ganfod ei berchennog. Bydd person sy'n methu â chymryd y camau hyn yn cyflawni trosedd. Rhoddir pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol ragnodi materion pan na fydd y ddyletswydd hon yn gymwys. Nid yw'r pŵer hwn yn gymwys i Weinidogion Cymru ac, yn lle hynny, rhaid ymgynghori â hwy cyn i'r pŵer hwn gael ei arfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae hyn yn cymryd pwerau mewn perthynas â Chymru, sy'n bodoli eisoes ond sydd heb eu cychwyn, oddi wrth Weinidogion Cymru.

[1] Paragraff 31 o'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil

**15.** Mae cymal 57(9) yn dirymu Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005, sy'n rhagnodi ffurf y cofnodion o'r cyfarpar a osodir ar strydoedd sydd i'w cadw gan ymgymerwyr yn unol â darpariaethau adran 79 o Ddeddf 1991. Mae cymal 57(8) yn estyn cymhwysiad Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Lloegr) 2002 fel eu bod yn gymwys i Gymru a Lloegr, yn hytrach na Lloegr yn unig.

**16.** Mae Cymal 60(1) (Ymgynghoriad cyn cychwyn) yn darparu y gellir bodloni'r gofyniad i ymgynghori (o dan ddarpariaeth a fewnosodir yn Neddf 1991 gan gymalau 56 neu 57) drwy ymgynghoriad a gynhelir cyn y diwrnod y caiff y Bil ei basio.

**17.** Mae Atodlen 1 (y Gofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol (Cymru a Lloegr): cosbau arianyddol) yn mewnosod Atodlen 5A newydd yn Neddf 1991 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cosbau arianyddol am beidio â chydymffurfio â'r gofynion i dalu ffi ac yn darparu gwybodaeth a nodir yn y Rhan 3A newydd o'r Ddeddf honno.

## Pwerau dirprwyedig

**18.** Mae'r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n rhoi pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol a Thrysorlys y DU, gan gynnwys mewn meysydd datganoledig. Mae rhai o'r pwerau hyn i'w harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Trysorlys yn unig. Mae eraill yn cael eu harfer ar yr un pryd gyda Gweinidogion Cymru o ran Cymru. Mae cyfiawnhad Llywodraeth y DU dros ddyroddi'r pwerau hyn, a chymryd pwerau mewn meysydd penodol, wedi'i nodi yn ei Memorandwm Pwerau Dirprwyedig.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru o ran cydsyniad

**19.** Yn y Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn mynegi cefnogaeth i'r bwriad polisi sy'n sail i'r Bil. Fodd bynnag, mae hefyd yn mynegi pryderon o safbwynt cyfansoddiadol ac yn egluro bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y materion hyn ar lefel Weinidogol ac ar lefel swyddogion.

**20.** Yn y Memorandwm, nodir y prif faterion i'w datrys mewn perthynas â Rhan 3 ym marn Llywodraeth Cymru, sef:

- Y gofyniad a osodir gan gymal 56 (Cofrestr Asedau Tanddaearol Genedlaethol: Cymru a Lloegr) ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan y Rhan 3A newydd o Ddeddf 1991, fel y'i mewnosodir gan y Bil.

- Darparu pwerau cydredol i wneud rheoliadau o dan gymal 57(3) (Gwybodaeth mewn perthynas â chyfarpar: Cymru a Lloegr) i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru, a gosod gofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan adran 79 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991.

- Darparu pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan ddiwygiadau a wneir i adran 80 o Ddeddf 1991 gan gymal 57(4) o'r Bil yn unig, gan osod gofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran honno.

- Dirymu deddfwriaeth a gymeradwywyd gan y Senedd, sef y Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) 2005[2], gan gymal 57(9) o'r Bil, ac estyn cymhwysiad Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Lloegr) 2002[3] fel eu bod yn berthnasol i Gymru a Lloegr, yn hytrach na Lloegr yn unig.

# 3. Casgliadau'r Pwyllgor

Ar adeg cyflwyno'r adroddiad, nid oedd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i argymell y dylid rhoi cydsyniad. Er i'r Ysgrifennydd Cabinet fynegi cefnogaeth i'r bwriad polisi sy'n sail i'r Bil, roedd yn parhau'n bryderus ynghylch sawl mater cyfansoddiadol sy'n deillio o'r Bil, gan gynnwys y rhai a nodir ym mharagraff 22 o'r adroddiad hwn.

Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo safbwynt yr Ysgrifennydd Cabinet ar y materion hyn. At hynny, cred y Pwyllgor fod rhaid datrys y materion hyn cyn gofyn i'r Senedd roi ei chydsyniad i ddarpariaethau'r Bil.

Yn olaf, o ystyried arwyddocâd y cynigion hyn i awdurdodau lleol, mae'r Pwyllgor yn gofyn am gadarnhad gan Ysgrifennydd y Cabinet yr ymgynghorwyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y cynigion a'u heffaith bosibl yng Nghymru.

[2] O.S. 2005/1812 (Cy. 142)
[3] O.S. 2002/3217